**ADRODDIAD I'R CYD-BWYLLGOR**

**26 MEDI 2018**

| | |
|---|---|
| **Adroddiad gan:** | Rheolwr Gyfarwyddwr GwE |
| **Testun:** | Cofrestr Risg GwE |

**1.0 Pwrpas yr Adroddiad**

1.1 Cyflwyno Cofrestr Risg ddiweddaraf GwE i'r Cyd-Bwyllgor.

**2.0 Cefndir**

2.1 Pwrpas y gofrestr risg yw ffurfioli'r broses o adnabod risgiau a chymryd camau gweithredu dilynol i'w lliniaru.

2.2 Trwy reoli risgiau'r rhanbarth yn effeithiol bydd GwE yn gallu cefnogi amcanion y rhanbarth, gwneud defnydd effeithiol o adnoddau a chyflawni'r deilliannau yn ôl y bwriad.

**3.0 Ystyriaethau**

3.1 Mae Cofrestr Risg GwE yn ddogfen fyw, a chaiff ei hadolygu'n gyson. Fe'i cyflwynir i'r Cyd-bwyllgor yn flynyddol, a hefyd pan fydd risgiau newydd yn cael eu hadnabod a bod angen i'r Cyd-bwyllgor fod yn ymwybodol ohonynt.

3.2 Mae'r holl risgiau wedi cael eu hadolygu a'u diweddaru; diweddarwyd cyfanswm o 3 risg (Risgiau 5, 11 ac 17).

3.3 Awgrymir felly diwygio'r risgiau a nodir yn 3.2 fel a ganlyn:

| **Rhif Risg** | **Gweithgareddau Presennol / Lliniaru** |
|---|---|
| **5** | Uwch Arweinydd a thîm Cwricwlwm i Gymru yn weithredol. Arweinwyr portffolio hefyd mewn swydd. Gweithgaredd ymgysylltu sylweddol wedi'i chynnal ac ar y gweill. Gweithio'n agos gyda rhanddeiliaid. Mae pob clwstwr ar draws y rhanbarth wedi penodi arweinydd clwstwr CiG. Hyfforddiant ar CiG a Rheoli newid. Tîm wedi gweithio ar adnoddau a chynnal gweithdai i gefnogi ysgolion wrth edrych ar y 4 diben. Holl gynllunio GwE yn croesgyfeirio at 4 diben Cwricwlwm i Gymru. Rheolwr Prosiect yn ymwneud a'r Rhaglen Drawsnewid wedi ei phenodi. |
| 5 | Newid lliw y risg gweddilliol i oren. |
| 11 | Ymgynghorydd Llesiant Rhanbarthol mewn swydd. Adolygiad o'r GDD wedi ei gwblhau a chynllun gweithredu ar waith. Cydlynydd Rhanbarthol GDD Plant mewn Gofal wedi ei phenodi |
| 17 | 6 ysgol uwchradd (12.95%) mewn categori statudol [un wedi dod allan o gategori llynedd ac un ysgol oedd wedi'i hadnabod gennym fel 'ysgol risg uchel' wedi llithro i'r categori.<br>• O'r 6 sydd mewn categori ar hyn o bryd, mae cynnydd cadarn i'w weld mewn 2 ohonynt a pheth cynnydd mewn 1. Mae disgwyliad y bydd o leiaf 2 o'r ysgolion hyn yn cael eu tynnu o gategori yn ystod y tymor cyfredol.<br>• Mae cynnydd yn y 3 ysgol arall yn gyfyngedig [un newydd fynd i gategori yn ystod tymor yr haf] ac mae gwaith sylweddol pellach i'w wneud i sicrhau y gwelliannau angenrheidiol<br>• Yn ychwanegol i'r ysgolion 'categori statudol' mae 8 ysgol uwchradd ranbarthol wedi'u hadnabod fel rhai 'risg uchel' h.y. posibilrwydd cryf iawn o gategori statudol petai arolygiad yn cael ei gynnal yno yn ystod y 2 dymor nesaf. Mae rhaglenni ymyrraeth a chefnogaeth dwys iawn yn weithredol yn yr ysgolion hyn a chaiff cynnydd ei fonitro gan yr YCG cyswllt. Ble dyrchefir pryderon, rhennir yr wybodaeth gyda swyddogion yr ALl trwy gyfrwng y Byrddau Ansawdd. |

Dilynwyd y matrics risg canlynol wrth bennu statws y risg weddilliol.

| Matrics Risg | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| Tebygolrwydd | Bron yn sicr | Isel (4) | Canolig (8) | Uchel (12) | Uchel (16) |
| | Tebygol | Isel (3) | Canolig (6) | Canolig (9) | Uchel (12) |
| | Posib | Isel (2) | Isel (4) | Canolig (6) | Canolig (8) |
| | Annhebygol | Isel (1) | Isel (2) | Isel (3) | Isel (4) |
| | | **Isel** | **Canolig** | **Uchel** | **Hynod uchel** |
| | | **Effaith** | | | |

**4.0 Argymhellion**

4.1 Gofynnir i'r Cyd-Bwyllgor adolygu cynnwys y gofrestr.

4.2 Penderfynu a oes unrhyw risgiau y dymuna'r Cyd-bwyllgor eu cyflwyno i sylw'r Cabinet perthnasol ac ati.

5.0 **Goblygiadau Ariannol**

5.1 Mae rheoli risg a rheolaeth ariannol effeithiol yn helpu i fonitro costau ac yn galluogi gwerth am arian.

**6.0 Effaith ar Gydraddoldeb**

6.1 Nid oes unrhyw oblygiadau cydraddoldeb newydd yn codi o'r adroddiad hwn.

**7.0 Goblygiadau Personél**

7.1 Nid oes unrhyw oblygiadau personél newydd yn codi o'r adroddiad hwn.

**8.0 Ymgynghori sydd wedi digwydd**

8.1 Mae Uwch Dîm Arwain GwE a Bwrdd Rheoli GwE wedi trafod cynnwys y gofrestr ac wedi diwygio’r risgiau fel y bo’n briodol.

**9.0 Atodiadau**

9.1 Cofrestr Risg GwE

**BARN Y SWYDDOGION STATUDOL**

**Swyddog Monitro:**

Mae system adolygu risgiau yn rhan sylfaenol o lywodraethu effeithiol. O ystyried y proffil risg a amlygir yn y tabl mae'n bwysig fod y Cyd Bwyllgor yn rhoi sylw manwl i'r asesiad a'r ymateb.

**Swyddog Cyllid Statudol:**

Credaf fod cofrestr risg GwE ar ffurf safonol ac yn cynnwys gwybodaeth addas. Bydd Adran Gyllid Gwynedd yn darparu cefnogaeth i Reolwr Gyfarwyddwr GwE ynghylch risgiau cyllidol. Cyflwynir sylwadau pellach ar risgiau penodol, fel bo angen, ar lafar yng nghyfarfod y Cydbwyllgor ar y 26ain o Fedi.